

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bupa Dental Care, Yr Wyddgrug

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi  
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 9 Awst 2022

Dyddiad cyhoeddi: 9 Tachwedd 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
  - Ansawdd profiad y claf
  - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
  - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bupa Dental Care, Yr Wyddgrug, o fewn Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 9 Awst 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Bupa Dental Care, Yr Wyddgrug yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu yn dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn modd cwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgwr a chyfeillgar mewn ystafelloedd triniaeth a oedd yn cynnal eu hurddas
- Mae'r staff yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'w cwestiynau sgrinio COVID-19, a gwelsom y staff yn tywys y cleifion i'r ystafelloedd aros a'r ystafelloedd triniaeth priodol pan oeddent yn y practis
- Mynediad da i bobl anabl i'r practis. Mae'r cyfleusterau clinigol i gyd ar y llawr daear. Gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad at bob ystafell driniaeth, y dderbynfa, y man aros a'r cyfleusterau toiled.

### Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, canfuom fod Gofal Deintyddol Bupa, Yr Wyddgrug yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd yn ymddangos bod y practis wedi'i gynnal a'i gadw a'i gyfarparu'n dda i gyflawni'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w cyflawni. Roedd pob ardal yn lân ac yn rhydd rhag unrhyw beryglon gweladwy.

Canfuom fod trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel.

Dyma rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella:

- Pob deintydd i drafod canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain fel rhan o'r broses adolygu cymheiriaid.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol, ac yn addas i'r diben ac roedd y cyfarpar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Gwelsom archwiliadau o ansawdd da yn cael eu cwblhau, a oedd yn dangos tystiolaeth o unrhyw newidiadau a wnaed o yn sgil canlyniadau'r archwiliad.

### **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan Bupa Dental Care, Yr Wyddgrug arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w gleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael i staff er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom yr holl staff, y staff clinigol a'r staff nad ydynt yn glinigol, yn cydweithio'n dda iawn fel rhan o dîm.

## 3. Yr hyn a ganfuom

### Ansawdd profiad y claf

#### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Derbyniwyd cyfanswm o 18 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd. Ni atebodd rhai o'r cleifion yr holl gwestiynau.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Da iawn"*

*"Gwasanaeth da drwyddi draw"*

*"Da iawn a hapus iawn gyda'r gofal"*

#### Cadw'n iach

##### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn amddiffyn rhag y risg a achosir gan y feirws, gwelsom beiriannau dosbarthu hylif diheintio dwylo ag alcohol wedi'u gosod mewn lleoliadau strategol ledled y practis. Gwelsom fod systemau puro'r aer yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn lleihau trosglwyddiadau ymhellach.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardaloedd cymunol, roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith. Roedd y staff yn gwisgo masgiau, a chynghorwyd y cleifion i wneud yr un peth.

Dywedodd y cleifion wrthym, wrth fynychu'r practis, ei bod yn amlwg bod gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â COVID-19.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'r cwestiynau sgrinio COVID-19, a gwelsom y staff yn tywys y cleifion i'r manau aros a'r ystafelloedd triniaeth priodol pan oeddent yn y practis.



Gwnaeth pob claf heblaw un a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynglŷn â sut i gadw'r geg a'r dannedd yn iach.

Gwnaethom nodi nad oedd gan y practis arwydd 'Dim Ysmygu' wedi'i arddangos. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn a drefnodd ar unwaith i arwydd gael ei arddangos.

## **Gofal ag urddas**

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.

Dywedodd 15 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod o'r farn bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd angen cymorth arnynt.

Dywedodd 15 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Gwelsom y staff yn darparu gofal i'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus, a siaradwyd â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a chymwynasgar. Cadwyd drysau i ystafelloedd triniaeth ar gau yn ystod triniaethau.

Dywedwyd wrthym fod staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y practis. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y byddent yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth i'r cleifion yn eu dewis iaith a/neu eu fformat dewisol, a bod gwasanaeth cyfieithu ar gael iddynt.

Gwelsom fod y naw egwyddor, fel y'u hamlinellwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn y man aros. Mae'r naw egwyddor yn berthnasol i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y dylai'r cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac roedd wedi'i harddangos o amgylch y dderbynfa a'r man aros.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau<sup>1</sup>.

Gwelsom fod posteri a thafleuni gwybodaeth amrywiol wedi'u harddangos a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i'r cleifion am y practis deintyddol.

Gwelsom fod gwybodaeth am gost triniaethau deintyddol ar gael yn y dderbynfa a'r man aros.

Gwelsom fod cynlluniau triniaeth ac opsiynau wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

## **Gofal amserol**

### **Mynediad amserol**

Mae staff y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu'r cleifion am unrhyw oedi i amseroedd eu hapwyntiadau.

Cadarnhaodd 15 o'r 18 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt a dywedodd tri wrthym nad oedd yn hawdd.

Dywedodd 13 o'r 15 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys a dywedodd dau nad oeddent yn gwybod. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arferol ar y cleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos wrth y brif fynedfa, wedi'i ddarparu ar wefan y practis, neges peiriant ateb, a thaflen gwybodaeth i gleifion.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwnaethom adolygu cofnodion deg claf a chanfod eu bod yn fanwl ac o safon dda. Gwelsom dystiolaeth o opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf yn cydsynio â thriniaeth.

Cadarnhaodd pob un heblaw un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

---

<sup>1</sup> Mae Rheoliad 6 ac Atodlen 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol mewn datganiad o ddiben.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn unol â'r datganiad o ddiben<sup>2</sup>.

### **Hawliau pobl**

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Roedd mynediad da at yr adeilad i'r bobl anabl. Mae'r cyfleusterau clinigol i gyd wedi'u lleoli ar y llawr daear. Gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad at bob ystafell driniaeth, y dderbynfa, y man aros a chyfleusterau toiled.

### **Gwrando a dysgu o'r adborth**

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwyn, neu sut i godi pryder, wedi'u harddangos yn glir yn y man aros.

Gwelsom fod systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i gwynion.

Buom yn trafod y mecanwaith ar gyfer mynd ati'n weithredol i geisio adborth gan y cleifion, a wneir drwy anfon negeseuon e-bost at y cleifion ar ôl pob triniaeth, gan eu hannog i roi adborth. Mae'r cleifion hefyd yn gallu rhoi adborth trwy wefan y practis. Mae dadansoddiad o adborth yn cael ei drafod gan y tîm deintyddol a'i gyhoeddi ar wefan y practis. Mae hyn yn dangos bod adborth yn cael ei gasglu ac y gweithredir arno i wella dysgu ac i ysgogi gwelliant yn y gwasanaeth.

---

<sup>2</sup> Mae Rheoliad 5 ac Atodlen 1 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol mewn datganiad o ddiben.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r safle.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob man yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd pob claf a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd toiledau ar gael i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Roedd y cyfleusterau wedi'u harwyddo'n glir ac yn lân iawn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd mewn argyfwng i'w gweld ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau, ynghyd ag asesiadau risg amrywiol ar waith, megis tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol a gwelsom dystiolaeth bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom ein sicrhau bod y safle'n addas i'r diben a gwelsom ddigonedd o ddogfennau a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, yr ymwelwyr a'r cleifion wedi'u hystyried.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ar waith a gwelsom fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd/dadebru brys.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir gan y Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, yn drefnus iawn, yn cynnwys yr offer angenrheidiol ac yn daclus.

Gwelsom fod y trefniadau dihalogi'n foddhaol. Dangosodd y staff y broses ddihalogi a chanfuom y canlynol:

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da
- Roedd offer yn cael eu storio'n briodol a'u dyddio
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i amddiffyn y staff rhag anafiadau a/neu heintiau
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi
- Roedd cynwysyddion storio offer yn gadarn, â chaeadau ac â chodau lliw.

Gwelsom fod y gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cwblhau gan ddefnyddio offer archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys offer archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Rydym yn cydnabod hyn fel arferion da oherwydd cwmbras cynhwysfawr yr archwiliad.

Roedd rhaglen gynnal a chadw ddyddiol ar waith ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnodion ar gael i gofnodi gwiriadau diogelwch yr awtoclaf ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at hylendid dwylo, trin a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau o offer miniog. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer yr holl staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag feirysau a gludir yn y gwaed.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i wahanu yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ddangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis dri swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad sy'n hawdd cael mynediad ato mewn achos argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys i sicrhau nad ydynt wedi dyddio a'u bod yn barod i'w defnyddio, yn unol â safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).

Gwelsom badiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd polisi ar waith yn ymwneud ag archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i'r cleifion. Dangosodd y staff eu gwybodaeth o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol yn codi neu pe bai'n rhaid iddynt adrodd am ddigwyddiad yn ymwneud â meddyginiaeth.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl**

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Roedd y polisiâu'n cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff o'r camau gweithredu angenrheidiol pe bai mater diogelu'n codi.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Enwebwyd aelod o staff fel arweinydd diogelu a gymerodd gyfrifoldeb am sicrhau y cedwir at y polisi diogelu a gall roi cyngor ac arweiniad i'r staff ar faterion diogelu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith yn uniongyrchol â rheolwr y practis a'u bod yn hyderus iawn y byddid yn gweithredu ar bryderon.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geiradaon a/neu gynnal gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys ar waith gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cadarnhawyd gennym hefyd fod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom y cyfleusterau clinigol a chanfod eu bod yn cynnwys offer perthnasol. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus.

Roedd yr holl offer radiolegol wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel a bod archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X yn

cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfoes ar gyfer yr holl staff clinigol.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol**

Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis a thrin y cleifion. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiau a gweithdrefnau.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Roedd yn amlwg bod staff y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod archwiliadau perthnasol wedi'u cwblhau megis croes-heintio, nodiadau clinigol, ansawdd pelydr-X, rhagnodi gwrthfotigau, llwyddiant triniaethau ac adborth y cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod adolygiad gan gymheiriaid rhwng y staff clinigol wedi'i gynnal, sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i'r cleifion.

Cawsom adroddiad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol, fel sy'n ofynnol gan <sup>3</sup>Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Dangosodd yr adroddiad dystiolaeth o'r ffordd y mae ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n cael ei reoli a'i asesu i sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu**

Roedd y dull storio gwybodaeth cleifion yn briodol, er mwyn sicrhau diogelwch a diogeledd data personol. Er enghraifft, roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu cadw'n rheolaidd. Roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn ddisylw. Roedd polisi diogelu data ar waith i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt.

### **Cadw cofnodion**

Adolygwyd sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, roedd dystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Ym mhob achos, roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn unigol ac yn cynnwys dynodwyr cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros fynychu. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy, ac o ansawdd da. Fodd bynnag,

---

<sup>3</sup> [Adran 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#)

gwnaethom nodi na ddilynwyd canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain yn gyson gan bob clinigwr. Rydym yn argymhell bod y canllawiau'n cael eu trafod fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd, a gwelsom ei fod yn ymrwymedig iawn ac yn ymroddedig i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd llawer o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers peth amser ac roedd cydberthynas dda rhyngddynt.

Gwelsom fod y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd pob aelod o staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac ategwyd hyn gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau. Gwelsom fod y staff wedi llofnodi'r polisiau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yswiriant indemniad priodol. Roedd hefyd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol ar gael.

### Gweithlu

Gwelsom fod gan y staff gontract cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisiau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff yn cael eu cynnal hefyd.

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a gwelsom fod cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw ar ffeil.



Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau fel y nodir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Bupa Dental Care, Yr Wyddgrug

**Dyddiadau'r arolygiad:** 9 Awst 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd o'r gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bupa Dental Care, Yr Wyddgrug

Dyddiadau'r arolygiad: 9 Awst 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rydym yn argymhell bod canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain yn cael eu trafod fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid.	Canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain	Mae pob clinigwr wedi cael gwybod am ganllawiau periodontoleg a bydd y rhain yn cael eu trafod fel rhan o adolygiadau parhaus gan gymheiriaid. Cynhaliwyd cyfarfod tîm i drafod	Richard Leigh	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd o'r gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Richard Leigh

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 15/9/2022